

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
24/10/2006

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Datblygu'r Economi
Developing the Economy

C12 Janet Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisiâu'r Llywodraeth ar gyfer datblygu'r economi? OAQ1941(FM)

Q12 Janet Davies: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policies regarding developing the economy? OAQ1941(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae 'Cymru: Economi sy'n Fynnu' yn pennu'r fframwaith strategol ar gyfer datblygu economaidd ledled Cymru. Gyda gwariant, bydd y blaenoriaethau ar gyfer cronfeydd strwythurol yr UE a lefelau sgiliau, gan gynnwys gwella lefelau arloesi, yn creu swyddi o well ansawdd a gweithlu mwy cymwysedig i'w llenwi.

The First Minister (Rhodri Morgan): 'Wales: A Vibrant Economy' sets the strategic framework for economic development across Wales. With spend, the priorities for EU structural funds and skill levels, including improving innovation levels, will give rise to better quality jobs and a better qualified workforce to fill them.

Trosglwyddo Cleifion
Transferring Patients

Q13 Glyn Davies: What steps has the First Minister taken to ensure that ambulances transferring Welsh patients to accident and emergency hospitals in England spend as little time as possible 'on the tarmac' before they are transferred into the hospital for treatment? OAQ1959(FM)

C13 Glyn Davies: Pa gamau mae'r Prif Weinidog wedi'u cymryd i sicrhau bod ambiwlansys sy'n trosglwyddo cleifion o Gymru i ysbytai damweiniau ac achosion brys yn Lloegr yn treulio cyn lleied o amser ag sy'n bosibl 'ar y tarmac' cyn i gleifion gael eu trosglwyddo i'r ysbyty i dderbyn triniaeth? OAQ1959(FM)

The First Minister: This is an operational issue for the Welsh Ambulance Services NHS Trust. However, I am not aware of any general problem regarding turnaround times with English hospitals. Turnaround times are monitored by the north-west regional office, which collects the information from the Welsh Ambulance Services NHS Trust as part of their performance management relationship.

Y Prif Weinidog: Mae hwn yn fater gweithredol ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru. Fodd bynnag, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw broblemau cyffredinol ynghylch amseroedd gweithdroi gydag ysbytai yn Lloegr. Mae amseroedd gweithdroi yn cael eu monitro gan swyddfa ranbarthol y gogledd-orllewin, sy'n casglu'r wybodaeth gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru fel rhan o'u perthynas rheoli perfformiad.

Polisiau Recriwtio a Chadw Recruitment and Retention Policies

C14 Rhodri Glyn Thomas: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar ynghylch polisiau recriwtio a chadw Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y GIG? OAQ1956(FM)

The First Minister: The Welsh Assembly Government's workforce and people management strategy to deliver 'Designed for Life', called 'Designed to Work—A Workforce Strategy to deliver Designed for Life', was issued in September 2006. It sets out our plans to create the vision of the future workforce that we need, ensuring that we train, recruit and develop roles for NHS Wales.

Q14 Rhodri Glyn Thomas: What recent discussions has the First Minister held regarding the Welsh Assembly Government's recruitment and retention policies for the NHS? OAQ1956(FM)

Y Prif Weinidog: Cafodd 'Y Cynllun Gwaith—Strategaeth Gweithlu i ddarparu'r Cynllun Oes', sef strategaeth gweithlu a rheoli pobl Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu 'Cynllun Oes', ei gyhoeddi ym mis Medi 2006. Mae'n pennu ein cynlluniau i greu gweledigaeth o'r gweithlu sydd ei angen arnom ar gyfer y dyfodol gan sicrhau ein bod yn hyfforddi, yn recriwtio ac yn datblygu swyddogaethau ar gyfer GIG Cymru.

Gwasanaethau Gofal Canser Cancer Care Services

Q15 Leanne Wood: Will the First Minister make a statement about cancer care services in Wales? OAQ1955(FM)

The First Minister: Tackling cancer across Wales remains one of the Welsh Assembly Government's top priorities for the NHS. Our strategy for improving services and access to treatments is through the progressive implementation of our national cancer standards and the advice of the National Institute for Health and Clinical Excellence.

C15 Leanne Wood: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau gofal canser yng Nghymru? OAQ1955(FM)

Y Prif Weinidog: Mae mynd i'r afael â chanser ledled Cymru yn parhau i fod yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y GIG. Ein strategaeth ar gyfer gwella gwasanaethau a chael gafael ar driniaethau yw gweithredu ein safonau canser cenedlaethol yn gynyddol yn ogystal â cheisio cyngor y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol.